



## Ysgol uwchradd newydd i Gaerffili



### Buddugoliaeth yng Nghaerdydd

# Cais i droi yn ysgol benodedig

MAE RhAG yn dadlau yn gryf ei bod hi'n well i ysgolion, lle bo'n bosibl, fod yn drwyadl Gymraeg eu natur: mae disgylion, waeth beth yw eu cefndir ieithyddol, yn gallu ymdopi gyda gwersi yn yr iaith, ac yn wir, ffynnu - dyma yw'r ffordd fwyaf effeithlon at feithrin dwyieithrwydd go iawn, chwedl RhAG.

Datblygiad calonogol iawn, felly, oedd i gorff Ilywodraethol Ysgol Pencae ym Mhenmaenmawr fis Mawrth y llynedd, fynd ati i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â throsi statws ieithyddol yr ysgol yn un Gymraeg ddynodedig.

Ar hyn o bryd mae oddeutu 190 o ddisgyblion ar gofrestyr yr ysgol sydd wedi'i rhannu'n ddwy yn ieithyddol - sef un ffrwd Gymraeg a ffrwd Cymraeg ail iaith - ond bod mwy o blant bellach yn trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg o Blwyddyn 1 ymlaen. Erbyn hyn, dealir fod 55% o holl ddisgyblion yr ysgol a Flynyddoedd 1-6 yn y ffrwd Gymraeg. Rhagwelir y bydd 60% o ddisgyblion Bl.1 yn parhau a'u haddysg yn y ffrwd Gymraeg o Fedi 2011 ymlaen. Yn 2010 roedd 29 o ddisgyblion yn y Derbyn a'r rhagamcanion yn awgrymu mai 6 o blant yn unig fyddai'n trosglwyddo i'r ffrwd ail iaith yn Blwyddyn 1ym Medi 2011.

Deallwn mai'r cynnig gerbron sydd i ail-strwythuro'r ysgol fel mai un ffrwd fydd yn bodoli ac



*Ysgol Pencae, Penmaenmawr*

y bydd y mwyaf o'r cwricwlwm yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflwynodd RhAG sylwadau i'r ymgynghoriad yn cefnogi bwriadau'r Ilywodraethwyr yn frwd ac yn annog y datblygiad.

Yn mis Medi cafwyd ar ddeall eu bod wedi penderfynu cyhoeddi rhybudd statudol yn nodi eu dyhead i newid statws ieithyddol yr ysgol a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 14 Tachwedd 2011.

Y bwriad yn ôl y rhybudd yw gweithredu'r cynigion o'r 1 Medi 2012 ymlaen ar gyfer disgylion fydd yn dod i ddosbarth meithrin yr ysgol ar 3 Medi 2012. Bydd pob carfan sy'n ymuno â'r ysgol ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Oherwydd gwrthwynebiad chwyrn o du rhai rhieni lleol ymddengys mai'r Gweinidog Addysg fydd a'r gair olaf ar y mater.

## Cydnabod sefyllfa

## unigryw addysg cyfrwng Cymraeg

MAE RhAG wedi croesawu cyhoeddiad hir-ddisgwylledig y Gweinidog Addysg mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf i addysg cyfrwng Cymraeg.

Dyweddodd Ceri Owen, Swyddog Datblygu RhAG, "Hoffwn longyfarch y Gweinidog Addysg ynghyd â Llywodraeth Cymru am osod eu gweledigaeth ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyhoeddiad yn cadarnhau fod sawl prosiect ledled Cymru wedi derbyn addewid am gyllid a fydd yn caniatâu i awdurdodau addysg fwrw 'mlaen yn awr yda'r gwaith o ddiwallu'r galw cynyddol o du rhieni. Yn y mwyaf o achosion, bydd y cyllid yn cynnig sefydlogrwydd a'r amodau angenrheidiol i'r sector ffynnu."

"Tra'n cymeradwyo arweiniad strategol clir y llywodraeth o safbwyt cynllunio addysg Gymraeg dros y blynnyddoedd nesaf, rhaid cydnabod mai dros

gyfnod estynedig o amser y caiff y cyllid ei ddyrrannu a hynny'n groes i'r cynllun gwreiddiol. Pwysleisiwn felly fod angen cadarnhau ar unwaith pa brosiectau fydd yn cael blaenoriaeth o fewn y rhaglen a phryd yn union y bydd yr arian yn cael ei ryddhau i'r awdurdodau lleol. Heb amserlen a fframwaith bendant i gyflawni hynny, mae'n debygol y gall arwain at sefyllfa o oedi ac ansicrwyd fydd yn niweidiol i dwf addysg Gymraeg ac mewn rhai achosion yn atal rhieni rhag sicrhau mynediad at addysg Gymraeg i'w plant. Elfen allweddol arall yw fod angen sicrwyd o du'r awdurdodau lleol y byddant hwythau'n medru canfod yr arian cyfatebol sy'n angenrheidiol i wrieddu'r cynlluniau dan sylw."

"Nid oes amheuaeth fod y buddsoddiad arfaethedig yn cymryd camau breision i'r cyfeiriad cywir, ond o safbwyt rhieni, yr hyn sy'n gwbl

greiddiol yw cael manylion pendant ynglyn â sut a phryd y bydd yr arian yn diogelu eu dymuniad i addysgu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg."

Roedd RhAG wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i dynnu sylw at anghenion uniryw addysg cyfrwng Cymraeg o fewn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

Meddai Ceri, "Pwysleision ni y bydd penderfyniadau a wneid o safbwyt dosbarthu cyllid y rhaglen yn cael effaith uniongyrchol ar ddymuniad rhieni i addysgu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sawl rhan o Gymru. Mae goblygiadau hefyd wrth gwrs o ran cyflawni egwyddorion craidd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y llywodraeth Cymru."

Cydnabyddir cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cyhoeddiad hwn ac i'r wefan [www.rhag.net](http://www.rhag.net)  
**Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y Llinell Gyswilt: 0845 6076070**  
(cyfradd galwadau lleol) Llun-Gwener 10.00am-12.30pm/1.30-3.30pm




# Profiadau rhieni yn dweud cyfrolau

Bu RhAG mewn cydweithrediad â Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy yn gweithio ar brosiect i gynhyrchu taflen ddeniadol er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn y sir. Bwriad y daflen oedd cyflwyno gwylbodaeth am ddarpariaeth

cyfrwng Cymraeg yr awdurdod ynglyd â manteision cyffredinol dwyieithrywydd. Mae'n adnodd unigryw oherwydd ei fod wedi'i dargedu at bobl Torfaen trwy seilio'r cynnwys yn uniongyrchol ar brofiadau personalon rhieni'r ardal.

Cafwyd nawdd ariannol hael gan Gronfa Glyndŵr i'n galluogi i gyflawni'r gwaith. Yn sgil hynny, targedwyd dros 1000 o deuluoedd a fydd yn gwneud dewisiadau addysgol ar gyfer Medi 2012 fel rhan o ymgyrch drwy'r post yn ystod mis Medi 2011. Mae Menter Iaith Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r syniad ac wedi mynd ati i gynhyrchu taflen debyg er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn eu hardal hwythau.

'ADDYSG Gymraeg yn Wrecsam a'r Gogledd Ddwyrain: Yr heriau i Gymru' oedd testun Trafodaeth Flynyddol RhAG yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd. Y panel o siaradwyr oedd Aled Roberts AC Rhanbarth Gogledd Cymru, Ioan Rhys Jones, Rhiant, Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam, a Huw Alun Roberts, Cadeirydd Menter Iaith Sir y Fflint.



# Ail ysgol uwchradd Caerffili

MAE cylluniau cyffrous i sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghaerffili wedi derbyn sêl bendith.

Cafodd cylluniau Cyngor Bwrdeisdrif Sirol Caerffili eu cymeradwyo ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn trawsnewid safle St Ilan, sydd wedi'i lleoli ynghanol tref Caerffili, yn ysgol Gymraeg newydd.

Daw hyn yn sgil cyhoeddiad y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau fod ysgolion Caerffili i dderbyn £92m er mwyn ariannu prosiectau rhwng 2014-2021 fel rhan o Raglen Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae Cyngorwyr felly wedi cytuno bwrw ymlaen gyda rhan gyntaf y gwaith datblygu ar gost o £3.5m, a fydd yn caniatâu mynediad i ddisgyblion Bl.7 ym mis Medi 2013.

Furfia hyn ran o gynllun ehangach i ddatblygu campws 3-16 ar y safle, ble bydd Ysgol Gymraeg Caerffili maes o law yn ymgartrefu yno. Byddant yn dechrau ar y gwaith adeiladu ym mis Ebrill.

Bu rhieni RhAG yn aros yn bryderus am y penderfyniad hwn oherwydd fod ganddo effaith uniongyrchol ar hawl rhieni i addysgu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y bwrdeisdrif.

Heb rhoi'r cynllun dan sylw ar waith, roedd y posiblirwydd o lefydd annigonol dros y blynnyddoedd nesaf yn fygithiad gwirioneddol. Yn wir, cafodd

rhieni eu siomi unwaith yn barod, pan y bu'n rhaid i'r Cyngor roi'r cylluniau gwreiddiol ar gyfer safle St Ilan i'r neilltu oherwydd diffyg cyllid.

Mae angen cynyddu llefydd uwchradd ym masn Caerffili ar fyrdar, er mwyn diwallu'r galw cynyddol ac er mwyn lliniaru'r pwysau ar Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y Sir ar hyn o bryd. Trwy'r cynllun hwn, mae Cyngor Caerffili'n arddangos eu hymrwymiad i wireddu amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru trwy ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio ar gyfer y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.



**Uchod:** Ben Jones, Cadeirydd RhAG Caerffili a dirpryaeth o rienni'r Sir yn y Senedd ym Mae Caerdydd yn cyflwyno deiseb i sylw William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.



LEIGHTON Andrews, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (ar y chwith), a Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru (ar y dde), oedd y siaradwyr gwadd yng Nghynhadledd Flynyddol RhAG fis Hydref y llynedd. Testun y Gynhadledd oedd "Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ble yd yn ni ar ôl 18 mis?". Cynhalwyd y Gynhadledd ar 15fed Hydref yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe.

# Dyfodol trydedd ysgol yn ddiogel

Mae RhAG wedi croesawu'r ffaith y bydd cylluniau Cyngor Caerdydd i agor trydedd ysgol gyfun Gymraeg y brifddinas ym Medi 2012 yn parhau yn unol â'r amserlen wreiddiol o leiaf, os nid ar y safle a addawydd.

Yn groes i'r cynllun gwreiddiol, bydd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn cael ei sefydlu ar safle Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am flwyddyn o fis Medi 2012 ymaen, gyda'r bwriad i'w symud i safle presennol Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Teilo ym Medi 2013. Bydd disgylion ysgolion Bro Eirwg a Berllan Deg yn bwydo'r ysgol am y ddwy flynedd gyntaf ac o 2014 bydd plant yn dod o Ysgol Pen-y-pil ac o 2016 o Ysgol Penygroes yn ychwanegol.

Dyweddodd Nona Gruffudd-Evans, Cadeirydd RhAG Caerdydd, "Tra'n cydnabod bod y sefyllfa ymhell o fod yn ddelfrydol, cred RhAG fod y penderfyniad yn caniatâu'r dechrau gorau posib i Bro Edern dan yr amgylchiadau, ac fod yn rhaid canolbwytio'n awr ar sicrhau proses drosglwyddo sydd mor esmwth â phosib i ddisgyblion yr ysgol newydd. Ymhellach i hynny, rydym yn cydnabod cefnogaeth sylwedol Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ac yn arbennig pennath yr ysgol honno, a'u rhan allweddol yn y broses o sicrhau'r datrysiaid dan sylw."

Ychwanegodd Mrs Gruffudd-Evans, "Pwysleisiwn ei bod yn gwbl hanfodol bod y Sir bellach wedi addo mai trefniant dros dro am flwyddyn yn unig fydd hyn, ac y bydd Cyngor Caerdydd yn gwireddu eu hymrwymiad i drosglwyddo Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern i'w chartref parhaol ym Medi 2013. Rydym hefyd yn galw ar y Cyngor i gadw at eu addewidion o sicrhau cyllid digonol ar gyfer trefniadau staffio ac adnoddau pwrrpasol ar gyfer lletya'r ysgol newydd yn ei chartref dros dro yng Ngllantaf. Addysg a lles y disgylion yw'r flaenoriaeth uchaf ac mae'n rhaid gwneud yn siwr na fydd y trefniant yma'n andwyol i fuddiannau disgylion y naill ysgol neu'r llall."

Nododd Michael Jones, Cydlynnydd de ddwyrain Cymru ar ran RhAG, "Dylai bwrw 'mlaen gyda'r gwaith o benodi pennath, er mwyn llywio'r broses o ymsefydlu hunaniaeth a threfniadaeth annibynnol yr ysgol newydd erbyn Medi 2012 fod yn gam gweithredu ar fyrdar gan y Sir. Yn naturiol mae gan ddarpar-rieni lawer iawn o gwestiynau a phryderon a bydd penodi pennath yn fod i dawelu nifer o'r gofidiau hynny. Mae'n bryder gan RhAG mai'r teimlad cyffredinol ymysg rhieni yw un o anniddigrwydd a'u bod yn teimlo wedi'u dieithrio'n llwyr yn ystod yr wythnosau diwethaf."

# Abertawe yn fflam

Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill yn Abertawe. Agorodd Ysgol Gymraeg Tan-y-Lan, ysgol Gymraeg newydd Treforys ym mis Medi 2011. Sefydlwyd yr ysgol ar ôl blynnyddoedd o ymgyrch dyfal gan RhAG. Ar hyn o bryd mae 100 o ddisgyblion o Dreforys yn teithio i ysgolion Lôn-las a Thirdeunaw i gael addysg Gymraeg, ond nawr mae plant yr ardal yn gallu cael addysg Gymraeg heb orfod teithio. Mae'r ddwy ysgol honno'n orlawn, ac ugeiniau o blant wedi'u gwrrthod i addysg Gymraeg yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Yn ystod tymor yr haf, aeth RhAG ati mewn cydweithrediad a'r Fenter Iaith leol a Mudiad Meithrin i gynhyrchu taflen hyrwyddo a gafodd ei dosbarthu i holl da'r ardal.

Yr ail ddatblygiad yw'r bwriad i sefydlu Ysgol Gymraeg newydd yn y Cwm, Bonywaen. Mae rhyw gant o blant o ardal Bonywaen a St Tomos ar hyn o bryd yn cael addysg Gymraeg yn Lôn-las a Bryn-y-môr. Daeth adeilad yn y Cwm yn rhydd trwy ad-drefnu addysg Saesneg. Y bwriad yw cychwyn yr ysgol ym mis Medi 2012. Daeth y cyfnod ymgynghori cyntaf i ben ym mis Mai, a'r gobaith yw y bydd y broses yn mynd yn ei blaen yn ddirwystr.

Mantais y ddau ddatblygiad yw nad oes cost cyfalaf - adeiladau gwag sy'n cael eu defnyddio. Y gobaith felly yw y bydd addysg Gymraeg yn blodeuo mewn dwy ardal arall yn Abertawe.

# Grym rhieni yn dwyn ffrwyth eto yn RhCT

MAE ardal Rhondda Cynon Tâf wastad wedi bod yn gadarn i addysg Gymraeg.

Yma agorwyd pedair o'r ysgolion cynharaf - Ynyslwyd yn Aberdâr ym 1949, Ynyswen a Phontywaith (Llwyncelyn erbyn hyn) yn y Rhondda ym 1950 a Pont Sion Norton ger Pontypridd ym 1951. Yn Nhâf-Elai bu'r twf wedyn gyda 5 ysgol neu uned arall erbyn 1974 pan ddaeth oes Cyngor Sir Morgannwg i ben ac aeth cyfrifoldeb dros addysg i Gyngor Canol Morgannwg. O dan y cyngor newydd, cafwyd dwy ysgol arall cyn 1980 - yn y Rhondda (Bodringallt) ac yn Llantrisant, ac uned ym Mhenderyn uwchben Cwm Cynon.

Wedyn daeth brwydr enwog Pont Sion Norton 1980-81 pan geisiodd y sir osod terfyn ar dwf addysg Gymraeg a gweithredodd y rhieni yn uniongyrchol i hawlio ei barhâd trwy feddiannu'r ysgol am fisoeedd.

Penderfynodd rhieni sir Forgannwg Ganol ffurfiow pwyllgor sirol i ymchwilio i'r angen am ehangu'r ddarpariaeth ar draws pob un o'r 6 ardal yn y sir, 3 ohonynt sydd yn awr yn ffurfiw Bwrdeisdref Rhondda Cynon Tâf, a rhwng 1980 a 1996 fe lwyddon nhw i ysgogi sefydlu 9 ysgol gynradd Gymraeg newydd ar draws y sir, 5 ohonynt yn ardal presennol Rhondda Cynon Tâf a'r pedwar arall yn

ardaloedd Caerffili a Phenybont.

Yn anffodus methodd RhAG â sicrhau parhâd pwyllgor sirol effeithiol yn RhCT er inni lwyddom ym Mhenybont a Chaerffili. Mae pwyllgor sirol Caerffili wedi bod yn gyson llwyddiannus wrth sicrhau agor ysgolion cynradd ychwanegol a phwyllgor Penybont wrth gael ysgol uwchradd Gymraeg yn Llangynwyd.

Ond yn Rhondda Cynon Tâf does dim ysgol gynradd wedi'i hagor ers Bronllwyn, Gelli Rhondda ym 1990. Bu ymdrech gan y sir i agor ffrwd 10 plentyn y flwyddyn yn 2005 yn Glenboi Primary School, ger Aberpennar, ond dangosodd y rhieni eu hanfodlonrwydd dros y cynnig di-werth hwn a gorfolwyd y sir i'w dynnu yn ôl.

Wedyn daeth bygythiad o gyfeiriad y sir yn 2010 i ddileu chweched dosbarth bob un o'r 4 ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ardal a chreu yn eu lle Goleg Chweched Dosbarth Dwyleithog yn Nantgarw. Bu'r cynnig yn fod i sbarduno'r rhieni i ffurfiow pwyllgor sirol RhAG o'r diwedd. Daeth llwyddiant yn fuan wrth orfodi dileu y cynnig i sefydlu'r Coleg ond gwelodd y pwyllgor yr angen i weithio am gael rhagor o ysgolion cynradd. Gwneithpwyd hynny mewn da bryd gan i'r sir ymateb i'r gorlenwi yn Llantrisant a Phorth Rhondda trwy awgrymu'n wyneb galed i'r rheni

geisio lle yn 2011 yn yr ysgolion Saesneg. Trefnwyd gwrth-dystiad cyhoeddus iawn a arweiniodd at orfodi'r sir yn y tymor byr i ddarparu dosbarthiadau ychwanegol ac yn y tymor canol i gynllunio ysgol gynradd ychwanegol ar safle ysgol uwchradd Llanhari i'w hagor Fedi 2012. Y newyddion gwych yw bod tua 35 plentyn wedi ceisio lle yn yr ysgol newydd yn barod, rhai yn y dosbarth meithrin a rhai yn y derbyn. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd nawr rhwng y pwyllgor sirol a swyddogion y sir. Yn y cyfarfod fis Ionawr datgelodd y sir y bwriad i godi adeilad newydd ar gyfer Tonyrefail School a dwy ysgol newydd sbon, un yn y Rhondda Fawr nepell o'r Porth a'r llall yng Nghwm Cynon lle mae'r ysgolion Cymraeg yn Aberdâr ac Abercynon wedi bod yn orlawn erstalwm. Y siom yw nad oes bwriad ar hyn o bryd i ymateb i'r galw sy wedi'i brofi gan arolwg sirol am o leiaf ffrwd arall i wasanaethu dalgyrchoedd Castellau a Garth Olwg (Cynradd) yn arbennig am fod ysgol Llantrisant hefyd o dan bwysau serch agor Llanhari.

Mae addysg Gymraeg ar i fyny eto yn Rhondda Cynon Tâf (lle roedd 20% o'r plant yn barod mewn addysg Gymraeg yn 2010) ac mae'r diolch am hyn yn ddyledus i rym rhieni lleol.

## Y llanw yn troi ar gynlluniau'r Fflint

BU'R flwyddyn diwethaf yn un guthryblus yn hanes addysg cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint. Cyhoeddwyd cynlluniau gan y Sir i amalgameiddio Ysgol Terrig, Treuddyn, sy'n ysgol Gymraeg ei chyfrwng gydag Ysgol Parc y Llan sy'n ysgol cyfrwng Saesneg ac yn rhannu'un safle, ac hefyd i greu campws dysgu gydol oes yn Nhreffynnon allai gyfuno Holywell High School a holl ysgolion cynradd y dref, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Gwenffrwd.

Heb amheuaeth, roedd y cynigion hyn yn gosod cysail peryglus i ddyfodol addysg cyfrwng Cymraeg mewn sir a fu unwaith yn arwain y gad.

Cafwyd ymateb ffyrniog i'r cynlluniau a chanlyniad hynny oedd sefydlu grŵp ymgrychu SYFFLAG (Sir y Fflint dros addysg Gymraeg) gan

rieni lleol. Wedi ymgrychu dygn ganddynt, cafwyd cyhoeddiad ym mis Medi fod y Sir wedi rhoi'r cynlluniau i'r neilltu am y tro. Mae RhAG ar ddeall fod y syniadau o amalgameiddio a ffederalleiddio yn bendant wedi'i diystyru bellach.

Serch hynny, mae gwaith mawr eto i'w wneud i ddiwallu'r galw sydd eisoes wedi'i brofi. Cynhalwyd arolwg mesur y galw nôl yn 2009 oedd yn dangos y byddai 33% o rieni yn dewis ysgol cyfrwng Cymraeg pe byddai o fewn 2 filltir i'r cartref. Yr ardaloedd gyda'r galw uchaf ydoedd Cei Connah, Shotton a Bwcle sydd heb ddarpariaeth leol ar hyn o bryd.

Dim ond 6% o ddisgyblion Sir y Fflint sy'n mynchy ysgolion cyfrwng Cymraeg.

## Ailsefydlu cangen

YN DILYN cyfarfod cyhoeddus a gynhalwyd fis Chwefror yng Ngoety ger Pen-y-bont mae cangen RhAG bellach wedi'i ailsefydlu yn y sir.

Daeth nifer sylweddol o rieni a chefnogwyr addysg Gymraeg ynghyd a chafwyd penderfyniad unfrydol i algydio yng gweithgarwch RhAG ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Erbyn hyn, mae nifer y plant sy'n mynchy Ysgol Bro Ogwr ac Ysgol y Ferch o'r Sger yn cynyddu'n flynyddol. Os perý'r cynydd hwnnw, bydd sefyllfa'n codi mewn byr o dro, lle bydd darpariaeth bresennol y sir yn methu diwallu'r galw. Mae datblygiadau tai sylweddol yn yr ardal hefyd yn rhwym o effeithio ar y galw hwnnw dros y blynnyddoedd nesaf.

Daeth yr amser felly i alw am sefydlu pumed ysgol gynradd Gymraeg yn yr awdurdod, er mwyn sicrhau fod addysg Gymraeg yn parhau i ffynnu ac fod rhieni'n medru cael mynediad at addysg Gymraeg sy'n hygrych ac o fewn pellter rhesymol.

Bydd cyfarfod swyddogol cyntaf y gangen o fewn yr wythnosau nesaf.

## Chwarae teg i Bowys

MAE cabinet Powys wedi rhoi sêl bendith ar gynllun i adeiladu cartref newydd sbon ar gyfer unig ysgol gynradd benodedig Gymraeg gogledd Powys.

Y bwriad yw adleoli Ysgol Dafydd Llwyd i adeilad a fydd yn medru derbyn 270 o ddisgyblion, gyda'r gallu i gynyddu ymhellach i 300 os bydd angen.

Mae'r ysgol ar hyn o bryd dan ei sang a'r adnoddau presennol yn gwbl anaddas.

Ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl, mae twf syfrdanol yr ysgol yn brawf diamheul o'r galw cnyddol am addysg Gymraeg yn y Drenewydd.

Bydd yr adeilad addas-at-bwrpas newydd hwn yn sicrhau fod addysg gynradd Gymraeg yn Nyffryn Hafren, o'r diwedd, yn derbyn buddsoddiad cwbl haeddiannol.



**Menter newydd yw A\* Seren sydd yn ceisio rhoi'r cyfle i blant ac oedolion ifanc yng Nghymru i gyrraedd eu potensial llawn. Os ydych yn gallu dysgu pwnc ac yn meddu ar sgiliau Cymraeg, gallwch gofrestru fel tiwtor gyda ni YN RHAD AC AM DDIM. Ewch i:**

**www.a-seren.com**

**Further Mathematics Support**  
Let Maths take you Further...

**Mae'r Rhaglen Cefnogi Mathemateg Bellach, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig gwersi uniongyrchol yn y De Orllewin, a mynediad at adnoddau ar-lein ar gyfer ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae cymhwyster mewn Mathemateg Bellach AS/A yn uchel iawn ei barch gan brifysgolion ac yn y gweithle. Os na ddysgrir Mathemateg Bellach yn ysgol/coleg eich plentyn, cysylltwch â ni i weld beth gallwn ni ei wneud.**

[www.furthermaths.org.uk](http://www.furthermaths.org.uk)  
**01792 602793/606609**



Noddir gan Lywodraeth Cymru  
Sponsored by Welsh Assembly Government

# Buddugoliaeth ysgubol yng Nghaerdydd

MEWN buddugoliaeth ysgubol i addysg Gymraeg yng Nghaerdydd, bydd Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn cael ei hail-leoli i safle presennol Eglwys Newydd Primary School fel ysgol ddwy-ffrwd â dosbarth meithrin ar y safle.

Cafodd ymgrychwyd "Save Eglwys Newydd Action Group" ganiatâd ym mis Gorffennaf 2011 i herio penderfyniad Llywodraeth Cymru o blaid cynlluniau Cyngor Caerdydd i ad-drefnu addysg yn yr Eglwys Newydd.

Daeth yr achos gerbron yr Uchel Lys fis Rhagfyr a dyfarnwyd o blaid penderfyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ganiatáu i Gyngor Caerdydd ffrw'r mlaen gyda'u cynlluniau.

O ganlyniad, bydd Eglwys Wen Primary ac Eglwys Newydd Primary yn cau ac o fis Medi 2012 ymlaen yn cael eu huno mewn ysgol newydd sbon wedi'i lleoli ar y safle a rennir ar hyn o bryd rhwng Eglwys Wen Primary ac Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd.

Yn ogystal, mae'r Gweinidog Addysg wedi rhoi sêl bendith ar gynlluniau eraill yng Nghaerdydd dan Raglen Ysgolion 21G sef:

- Y Wern: rhan A (i'w gwblhau erbyn Medi 2012) - gwario £977,000 i ymestyn y cynhwysedd o 1.8-ffrwd i ddwy ffrwd; rhan B - gwelliannau'n costio £2,680,000 i ymestyn y cynhwysedd i 2.5 ffrwd y flwyddyn o Fedi 2017.
- Ysgol un-ffrwd newydd yn Nhreffynach (Grangetown) i fod ar agor Fedi 2015 am gost o £6,665,000 (safle anhysbys).
- Gwelliannau i Ysgol Glan Ceubal i'w cwblhau erbyn Medi 2016 am £2,132,000.

Mae'r cynlluniau hyn ar ben cynllun arall sydd ar y gweill, sef:

- Adeiladau newydd ar gyfer Treganna a Thanyreos i fod ar agor erbyn Medi 2013 i ddarparu 3 ffrwd yn lle'r 2 presennol. Mae'r gwahoddiad i dderbyni mynd allan ac felly gellid gobeithio y bydd y gwaith yn dechrau mewn mis neu dda.

Mae'r rhestr hon yn ymdangos yn hir ac effallai'n ddigonol i ofalu am dwf addysg gynradd Gymraeg dros yr 8 mlynedd nesaf, ond yn anffodus dyw hyn ddim yn wir. Ar y mwyaf mae'r sir am ychwanegu 2 ffrwd at y 24 sydd ar gael pan fydd angen 14 ffrwd ychwanegol erbyn 2020 i gwrd â'r twf presennol neu 8 ffrwd pe bai'r twf yn arafu i'r raddfa bu cyn 2006.

Nifer y newydd-ddyfodiaid y llynedd oedd 655, cynydd o 57 dros y 598 daeth i mewn yn 2010, cynydd bron yn 10% a adawodd 53 lle gwag yn y sector Cymraeg. Os bydd y cynydd eleni ar yr un raddfa fe fydd 720 plentyn yn ceisio'r 708 lle sy ar gael. Mae'r niferoedd yn y meithrifnfydd yn awgrymu bod twf tebygol, er na fyddai'n syndod inni gael twf is, tebycach i'r cynydd rhwng 2009 a 2010.(29) Un rheswm am gynnydd 2011 oedd bod y sir wedi darparu dosbarth ychwanegol ym Mhwll Coch ac felly ni fu colledion yn nalgylchoedd Treganna a Phwll Coch, fel oedd yn digwydd. Ar hyn o bryd does dim cynllun i ychwanegu at y ddarpariaeth ac eithrio yn Y Wern, ac nid yw'n glir beth fydd maint yr ychwanegiad hwnnw. Ers 2006 mae nifer y newydd-ddyfodiaid ar draws Caerdydd wedi cynyddu o 464 i 655, sef cyfartaledd cynydd ychydig dros 8% y flwyddyn.

Ers blynyddoedd nifer safonol mynediad y Wern yw 60 sef 2 ffrwd er fod cynhwysedd swyddogol yr ysgol yn 372, digon i gynnwys 12.5

dosbarth yn lle y 14 sydd eu heisiau ar gyfer 7 mlynedd x 2 ffrwd. Efallai dyna esbonio'r bwriad i gynyddu'r ysgol o 1.8 ffrwd i 2 ffrwd. Ond mae'r Wern hefyd yn etifeddu adeilad Cefn Onn a gaewyd (ac eithrio'r dosbarth meithrin) fis Gorffennaf gan ryddhau cynhwysedd o 214 i'r Wern, digon i dderbyn ffrwd arall. Ar ben hyn cyhoeddodd y sir y llynedd ei bwriad i ehangu'r Wern i fod yn ysgol 3 ffrwd ar yr un adeg â chyhoeddi'r bwriad i gael 3 ffrwd yn ysgol newydd Treganna ac ym Mhwll Coch. Mae'n bur debyg y bydd angen lle uwchben y 708 sy ar gael eleni ac roedd RhAG yn weddol hapus y byddai trydedd ffrwd yn Y Wern ar gael i gwrd â'r angen mewn argyfwng, ond mae'n anodd deall y gwahanol negeseuon sy'n dod o'r sir parthed dyfodol Y Wern.

Newyddion da yw'r bwriad i godi ysgol newydd sbon yn Nhreffynach ar ben cael 6ed ffrwd yn yr ardal pan yr agorir Treganna newydd fel ysgol 3 ffrwd yn 2013. Ond ni fydd yr ysgol newydd yn darparu 7fed ffrwd ond yn hytrach yn galluogi Pwll Coch i fynd yn ôl i ysgol 2 ffrwd. Mae'r twf yn ardaloedd Treganna/Pontcanna/Trefynach wedi aros ar y raddfa o 10% ers 2005. Yn 2011 derbynwyd 136 plentyn gan adael 14 lle gwag. Fe ellir disgwyl na fydd lle dros ben eleni. Erbyn 2013 bydd 30 lle ychwanegol ar gael yn Nhreganna digon ar gyfer twf hefyd yn 2014, ond serch yr ysgol newydd bydd pethau'n argyfngus eto yn yr ardal o 2015 ymlaen oni bai i'r sir ganiatáu i fwy na 30 ddechrau yn yr ysgol newydd o 2015 ymlaen. Ateb byr dymor wrth gwrs fyddai hynny oni bai i'r sir benderfynu ehangu'r ysgol newydd i 2 ffrwd yn fuan fel digwyddodd yn achos Pwll Coch oedd yn ysgol un ffrwd pan y'i hagorwyd.

Da hefyd yw gweld bod y sir yn symud i sicrhau dyfodol hir dymor Ysgol Glan Ceubal i dderbyn gorlif Melin Gruffydd a Phencae.

I grynhoi, mae cynlluniau'r sir yn debygol o fod

yn ddigonol am eleni a 2013 os bydd defnydd o'r lleoedd sy ar gael yn Y Wern (2012 - prin 2 ffrwd mewn llaw a ffrwd posib Y Wern; 2013 - gweiddill lleoedd ychwanegol Y Wern a ffrwd newydd

Treganna). Mae sefyllfa 2014 yn argyfngus gyda thwf tebygol rhwng 50 a 60 a dim darpariaeth wedi'i rhagbaratoi a'r un yw'r sefyllfa am weddill y degawd ac eithrio'r posiblwydd o ddefnyddio ystafelloedd gwag yr ysgol newydd tra'n aros iddi gael adeiladau ychwanegol i fod yn ysgol 2 ffrwd.

Mae'r sir wedi cynllunio i ychwanegu 2 ffrwd at y 24 sy ar gael pan gellir disgwyl y bydd angen erbyn 2020 rhwng 38 a 40 ffrwd y flwyddyn: sef cynydd rhwng 16 ac 18 dros 8 mlynedd. Dyma sy'n debygol os bydd graddfa y tyfiant yn aros tua 8%. Wrth gwrs mae'n bosibl y daw y twf eithriadol ar raddfa 8% y flwyddyn ers 2006 i ben, fel mae'r crebachu ers 1995 ar y niferoedd cyffredinol wedi dod i ben ers 2009 (cyfanswm 3400 lan i 3875 eleni). Ers 2000 mae nifer y ffrydiau cychwynnol Cymraeg wedi cynyddu o 14 i 22 sef dros 50% ac effallai y bydd y twf dros yr 8 mlynedd hyd 2020 yn nes at 5% na 10% y flwyddyn. Os felly yr angen fydd am 8 i 9 ffrwd ychwanegol sydd eto'n nifer dwbl nifer cynllun y sir.

Mae'n weddol amlwg felly nad yw cynllun y sir yn un am ddegawd cyfan lle mae addysg Gymraeg yn y cwestiwn. Wrth gwrs mae'n anodd i'r sir baratoi rhestr yr ysgolion Saesneg bydd eisiau eu cau mewn 5 i 8 mlynedd i wneud lle ar gyfer plant sy eto heb eu geni i rieni na fydd yn dewis addysg Gymraeg am o leiaf 4 i 7 mlynedd. Dylem felly fod yn ddiolchgar fod cynllun o ryw fath am y dyfodol agos ac yn benderfynol o fynnu darpariaeth ychwanegol pan fydd y sefyllfa'n gliriach.

Michael Jones





## New secondary for Caerphilly



## Victory in Cardiff

The newsletter of RhAG, Parents for Welsh Medium Education

Issue 27, February 2012

Rhagolwg is published by Rhieni dros Addysg Gymraeg,  
Tŷ Cymru, Greenwood Close,  
Cardiff Gate Business Park, Cardiff CF23 8RD

tel: 029 2073 9207 • fax: 02920 739201  
ceri@rhag.net • www.rhag.net



# rhagolwg

## Bid to become Welsh medium

RHAG is of the opinion that schools work best when they are thoroughly Welsh medium: pupils, whatever their linguistic background, are fully able to cope with lessons in the target language, and indeed thrive - in RhAG's opinion, this is the most effective way of nurturing true bilingualism.

It was therefore very encouraging to learn that the governors of Ysgol Pencae in Penmaenmawr, Conwy, decided to hold a public consultation last March to gauge opinion about changing the school's status to that of a designated Welsh-medium school.

The school currently has approximately 190 pupils on the register with one Welsh-medium stream and one second-language stream; in recent years more pupils have been moving up to the Welsh-language stream in Yr 1 onwards. It is understood that 55% of all pupils from Yr 1-6 are in the Welsh-medium stream. It is anticipated that from September 2011 onwards, 60% of pupils in Yr 1 will continue with their education through the medium of Welsh.

In 2010, 29 pupils were admitted to the Reception and it was estimated that only 6 of those pupils would move up to the second language stream in September 2011.

RHAG understands that the proposal involves



*Ysgol Pencae, Penmaenmawr*

the re-structuring of the school to establish one language stream and that the majority of the curriculum would be taught through the medium of Welsh.

RHAG submitted comments to the consultation enthusiastically supporting the governors' proposals and strongly urging this development.

In September, a statutory notice was published outlining the governor's intention to convert the school's language classification and the closing

date for receiving comments was 14 November 2011.

The proposals would be implemented from 1 September 2012 and applied to all nursery aged pupils admitted on 3 September 2012. All children admitted from this date onwards will then be educated through the medium of Welsh.

Because of strong opposition from some local parents the Education Minister will now have the last say on the matter.

## Unique status of Welsh medium education recognised

